Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Treforys

**Heol Maes Eglwys**
**Treforys**
**SA6 6NH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Treforys

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Treforys |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1086 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 942 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 143 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 27.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 15.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/02/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/09/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Treforys yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned. Mae staff wedi ymrwymo i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd i wella'u lles a'u cynnydd mewn dysgu. Caiff hyn ei ategu gan weledigaeth glir y pennaeth ar gyfer creu ethos cynhwysol sy'n gwerthfawrogi'r cyfraniad a wna'r gymuned gyfan tuag at fywyd yr ysgol. Mae hyn wedi helpu rhoi'r ysgol yn ganolog i'w chymuned a darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion a'u teuluoedd. O ganlyniad i'r ethos gofalgar hwn, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag bwlio.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgysylltu'n dda ar ddechrau gwersi. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau gyda lefel briodol o her, yn rhoi esboniadau clir, ac mae ganddynt ddisgwyliadau addas o gynnydd a chyfranogiad disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf oherwydd addysgu effeithiol sy'n symbylu eu hymgysylltiad ac yn herio'u dealltwriaeth a'u meddwl. Mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion mewn addysgu sy'n golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig ac yn aml yn mynd yn oddefol yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn aml yn cynllunio tasgau nad ydynt yn heriol, yn rhoi gormod o gymorth i ddisgyblion, ac mae ganddynt ddisgwyliadau rhy isel o'r hyn y gallant ei gyflawni.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n addas o eang a chytbwys ac yn cynnig ystod briodol o gyrsiau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Caiff y cwricwlwm hwn ei gyfoethogi trwy ystod eang o glybiau ac ymweliadau allgyrsiol. Er bod staff wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu eu Cwricwlwm i Gymru, ni chaiff darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol ei chynllunio na'i chydlynu'n strategol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i gymhwyso neu ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â'u dealltwriaeth bynciol.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd.

Mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau gwerthfawr mewn rhai agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft presenoldeb disgyblion. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg. Yn ychwanegol, mae disgyblion o'r farn fod ymddygiad mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol wedi gwella. Er gwaethaf hyn, nid yw arweinwyr ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar nifer o feysydd pwysig, yn enwedig ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, a datblygiad graddol medrau disgyblion. Mae hyn oherwydd yr amrywiad yng ngallu arweinwyr i werthuso a chynllunio ar gyfer gwella ac oherwydd nad yw uwch arweinwyr wedi sicrhau bod arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol yn gyson. Er bod yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi cael ei ad-drefnu yn ddiweddar iawn, nid yw arweinwyr ar bob lefel, yn cynnwys llywodraethwyr, yn ddigon clir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Yn

ychwanegol, nid yw rolau uwch arweinyddiaeth wedi eu dosbarthu’n ddigon da, sy’n rhwystro gallu’r ysgol i sicrhau gwelliannau.

Mae’r cyfleuster addysgu arbenigol yn darparu amgylchedd gofalgar lle mae disgyblion yn ymgysylltu â chwricwlwm gwerthfawr a phrofiadau dysgu buddiol sy’n eu cefnogi i wneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod hunanwerthuso yn canolbwyntio’n fanwl gywir ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu a chynnydd disgyblion

A2 Mireinio rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr fel eu bod nhw a llywodraethwyr yn dwyn staff i gyfrif yn llawn

A3 Gwella effeithiolrwydd yr addysgu fel bod disgyblion yn cael eu herio’n gyson i wneud cynnydd cryf

A4 Datblygu’r arweinyddiaeth strategol o ran medrau fel bod disgyblion yn cael ystod o gyfleoedd heriol a pherthnasol i ddatblygu eu llythrennedd a’u rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn Ysgol Gyfun Treforys yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â’u disgyblion ac yn datblygu arferion ystafell ddosbarth sefydledig. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymdawelu’n gyflym ar ddechrau eu gwersi ac yn dangos lefelau cryf o barch at staff, ymwelwyr a’u cyfoedion.

Yn yr achosion prin lle mae’r addysgu’n effeithiol, mae athrawon:

- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni
- yn cynllunio’n ofalus, gan ganolbwyntio ar beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu, a sut

- yn darparu modelu buddiol i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion
- yn rheoli cyflymdra eu gwersi yn fedrus i ymateb i gynnydd disgyblion
- yn gofyn cwestiynau buddiol sy'n herio disgyblion i ddyfnhau eu dysgu a datblygu eu meddwl

Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn hyderus ac yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus mewn ystod addas o gyd-destunau newydd. Maent yn gwneud cynnydd da, yn datblygu eu medrau meddwl, ac yn gweithio'n dda yn annibynnol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio'n briodol ac yn cynnig lefel addas o her i ddisgyblion. Maent yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu ar, ac yn datblygu, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn briodol. Mae'r athrawon hyn yn darparu esboniadau a chyfarwyddiadau clir. Mae ganddynt ddisgwyliadau addas o ymgysylltiad a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi mwyafrif y disgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae diffygion mewn addysgu yn golygu bod lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn lleiafrif o achosion:

- mae athrawon yn cynllunio ar gyfer yr hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei wneud, yn hytrach na'r hyn y maent eisiau iddynt ei ddysgu
- mae athrawon yn rhoi gweithgareddau i ddisgyblion nad ydynt yn ddigon heriol neu sydd wedi'u sgaffaldio yn ormodol, ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da
- nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n llawn trwy gydol y wers
- nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau ochr yn ochr â'u dealltwriaeth bynciol

Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd digonol. Maent yn cael anhawster yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn aml yn rhy oddefol yn eu dysgu, ac yn dibynnu'n ormodol ar athrawon i'w cynorthwyo. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu hannibyniaeth na'u gwydnwch yn gyson i ddyfalbarhau pan fydd gwaith yn mynd yn heriol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn briodol i brofi medrau galw i gof disgyblion, a'u dealltwriaeth. Ychydig ohonynt yn unig sy'n defnyddio holi yn fedrus i brocio neu ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad medrau meddwl disgyblion a'u gallu i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain.

Mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn briodol ac yn darparu adborth addas ar lafar yn ystod gwersi. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i hyn er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Er bod lleiafrif o bynciau ar draws y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol sylfaenol, at ei gilydd, ni chaiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol ei chynllunio

na'i chydlynu'n strategol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i gymhwyso a datblygu eu medrau, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd, mewn ystod o gyd-destunau perthnasol a heriol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac yn ymateb yn brydlon i gwestiynau a chyfarwyddiadau. Maent yn rhannu eu safbwyntiau yn briodol ac yn defnyddio ystod addas o eirfa i gyfiawnhau eu barn. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig ymatebion byr ac annatblygedig yn unig, gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o eirfa. Yn aml, ni chânt eu herio na'u cynorthwyo'n ddigon da gan eu hathrawon i wella'u hymatebion.

Gall llawer o ddisgyblion ddethol gwybodaeth berthnasol o destunau yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen datblygedig yn dda, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad i archwilio ymddygiadau cymeriadau mewn nofelau a dramâu. Fodd bynnag, at ei gilydd, ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen datblygedig ar draws y cwricwlwm. Nid ydynt yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn llwyddiannus i gefnogi eu dysgu.

Mae tua hanner y disgyblion yn creu darnau byr, strwythuredig a chywir o ysgrifennu ar gyfer ystod addas o ddibenion a chynulleidfaoedd. Fodd bynnag, ni chynigir cyfleoedd digonol iddynt ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm, ac felly nid ydynt yn datblygu eu gallu i ysgrifennu darnau estynedig yn ddigon da. Er bod ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn arddull aeddfed a soffistigedig, nid yw tua hanner ohonynt yn dangos rheolaeth ddigonol yn eu hysgrifennu ac maent yn gwneud camgymeriadau diofal.

Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol cadarn ac yn defnyddio'r pedair rheol yn fedrus, er enghraifft i gyfrifo cynnydd canran. Mae llawer ohonynt yn llunio a dadansoddi graffiau syml yn gywir. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemateg a rhifedd yn ddigon da. O ganlyniad, caiff lleiafrif ohonynt anhawster wrth wneud cyfrifiadau sylfaenol, ac nid yw mwyafrif ohonynt yn datblygu nac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigonol mewn cyd-destunau perthnasol.

Mae ychydig o bynciau'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Er enghraifft, maent yn datblygu siart llif ar gyfer dosbarthu mewn gwyddoniaeth ac yn trin a thrafod delweddau mewn ffotograffiaeth. Yn eu gwersi TGCh, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o feddalwedd, er enghraifft wrth ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg ac maent yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi Cymraeg. Maent yn llunio brawddegau sylfaenol yn Gymraeg ac yn adalw gwybodaeth o destunau syml. Wrth siarad Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi ymatebion syml yn unig, ac mae eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae gan ddisgyblion yn y chweched dosbarth agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon. Maent yn cyflwyno'u gwaith yn glir ac yn awyddus i gydweithio, gan roi cymorth buddiol i'w cyfoedion.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n addas o eang a chytbwys. Mae staff wedi gweithio'n frwdfrydig i sefydlu gweledigaeth yr ysgol ei hun ar gyfer Cwricwlwm i Gymru i hyrwyddo gwybodaeth bynciol a darparu profiadau dysgu sydd wedi'u teilwra i sicrhau bod disgyblion 'Yn Barod, yn Barchus ac yn Gyfrifol'. Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol buddiol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn trip maes i Benllergaer neu ymweliad â chanolfan gelfyddydau leol i weld drama Gymraeg. Yn ychwanegol, mae cynhyrchiad yr ysgol yn darparu cyfle gwerthfawr i nifer fawr o ddisgyblion ddatblygu eu creadigrwydd a'u hyder ac yn cyfrannu'n dda at ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae disgyblion yn elwa ar raglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) werthfawr sy'n ymatebol i anghenion disgyblion a chyd-destun yr ysgol. Mae hyn yn helpu meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus at amrywiaeth, er enghraifft pan fydd disgyblion yn ystyried sut orau i herio stereoteipiau. Megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer agweddau eraill ar y cwricwlwm, fel datblygu dealltwriaeth o hanes a threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol Cymru.

I ddisgyblion hŷn, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyrsiau addas sy'n eu galluogi i ddilyn eu llwybr dewisol. Mae'r rhain yn cynnwys troseddeg a gwleidyddiaeth yn y chweched dosbarth, yn ogystal â chyrsiau TGAU mewn Sbaeneg ac adeiladu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill er mwyn ymestyn ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm chweched dosbarth.

Mae disgyblion yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA) yn elwa ar gwricwlwm teilwredig sy'n eu cynorthwyo i wneud cynnydd da. Mae hyn yn cynnwys cyfle i ymgysylltu â'r cwricwlwm prif ffrwd, lle bo'n briodol, er enghraifft pan fyddant yn astudio adeiladu yng nghyfnod allweddol 4. Mae gan ddisgyblion yn y CAA agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn awyddus i rannu eu dysgu gyda phobl eraill.

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Treforys yn ysgol gynnes, ofalgar ac anogol lle mae staff yn angerddol am gefnogi eu disgyblion. Maent wedi creu cymuned gynhwysol sy'n darparu cymorth ac arweiniad effeithiol. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio'n ofalus ar gryfhau ei safle yng nghanol y gymuned, gan gyflogi staff yn strategol i gefnogi anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal a chymorth trwy ystod helaeth o ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio data lles yn effeithiol i nodi themâu penodol ac yn darparu cymorth targedig ar gyfer themâu fel materion cyfeillgarwch, 'secstio' a medrau cymdeithasol. Caiff lles disgyblion ei fonitro'n agos ac mae cyflwyno platfformau digidol yn golygu bod disgyblion yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon ac yn teimlo'u bod yn cael cymorth pan fydd materion yn codi.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ychwanegol buddiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei angen. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid fel yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd lleol i fynd i'r afael â materion penodol. Mae staff yn gweithio'n strategol i feithrin perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr. Er enghraifft,

maent yn cynnal boreau coffi a dosbarthiadau rhianta. Caiff y gwaith hwn effaith gadarnhaol o ran lleihau nifer y disgyblion sy’n absennol yn barhaus.

**Ciplun – Gwella presenoldeb disgyblion**

Mae arweinwyr yn yr ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos. Maent yn dadansoddi data yn rheolaidd i nodi tueddiadau ym mhresenoldeb grwpiau o ddisgyblion. Ceir ymagwedd ystyriol at ymyrryd pan fydd presenoldeb disgyblion yn disgyn islaw lefelau penodol. Mae hyn yn cynnwys staff ar bob lefel ac asiantaethau allanol. Defnyddia’r ysgol amrywiaeth o strategaethau i wella presenoldeb, ac mae gwerthuso effaith y strategaethau hyn ar ddisgyblion unigol yn nodwedd gref. Mae arweinwyr yn cyfleu pwysigrwydd presenoldeb da i ddisgyblion a rhieni yn rheolaidd. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi systemau gwobrau’r ysgol. Gallant ennill gwobrau am ymgysylltiad cadarnhaol ac ymddygiad da, yn ogystal â lefelau presenoldeb uchel.

Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn wedi arwain at wella presenoldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae presenoldeb yr ysgol yn cymharu’n ffafriol â phresenoldeb ysgolion tebyg, er ei fod yn parhau gryn dipyn islaw lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol, a chyfartaledd ysgolion sydd â chyd-destun tebyg.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn briodol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, er bod disgyblion yn teimlo bod ymddygiad mewn gwersi yn tarfu ar eu dysgu, ar adegau. Mae’r ysgol yn olrhain ymddygiad disgyblion yn dda. Mae ganddi weithdrefnau addas ar waith i gefnogi ymgysylltiad ac ymddygiad. Er enghraifft, mae staff yng nghanolfan rheoli ymddygiad yr ysgol yn darparu ymyriadau gwerthfawr i gefnogi hunanreolaeth disgyblion. Mae’r ysgol yn defnyddio dulliau adferol yn dda i alluogi disgyblion i ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau ac ail-feithrin perthnasoedd â staff a chyfoedion. Mae nifer fach o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn mynychu canolfan ‘MILE’, sy’n darparu cwricwlwm amgen teilwredig ar gyfer disgyblion â heriau ymddygiadol.

Caiff disgyblion, yn cynnwys y rhai yn y CAA, eu hannog i ymgymryd â rolau arwain ac mae gan yr ysgol drefniadau priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain. Mae senedd yr ysgol yn agored i’r holl ddisgyblion ac yn cael ei chynnwys yn addas mewn dylanwadu ar fywyd ysgol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn addasu’r ddarpariaeth yn unol â hynny. Caiff senedd y disgyblion ddylanwad cadarnhaol ar wella agweddau ar fywyd ysgol fel pris bwyd yn y ffreutur, a newidiadau i wisg ysgol.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd ar ôl yr ysgol, a’r byd gwaith, gan helpu codi eu dyheadau. Wrth iddynt ddewis eu hopsiynau ar ddiwedd Blwyddyn 9, mae’r ysgol yn cynnig arweiniad defnyddiol i ddisgyblion. Rhoddir arweiniad diduedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 4 ar addysg bellach, gyrfaoedd ac opsiynau ôl-16 eraill. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwerthfawrogi’r sesiynau rheolaidd i’w harwain wrth iddynt wneud dewisiadau am eu camau nesaf.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd, yn cynnwys nosweithiau agored a diwrnodau pontio. Mae disgyblion sydd ag ADY, yn cynnwys y rhai sy'n trosglwyddo i'r CAA, yn elwa ar drefniadau pontio estynedig i sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo'n dda ar ddechrau Blwyddyn 7 a bod yr ysgol yn gwbl ymwybodol o'u hanghenion.

Mae'r CAA yn darparu cymorth cryf ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn eu hadnabod yn dda ac yn addasu eu haddysgu i gael y gorau gan eu disgyblion. Mae staff yn rhoi blaenoriaeth briodol uchel i feithrin disgyblion a chefnogi eu lles. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn y CAA yn hapus a hyderus i ddysgu.

Mae'r Tîm ADY yn benderfynol i sicrhau'r gofal a'r cymorth gorau posibl ar gyfer disgyblion ag ADY. Ceir prosesau buddiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd y disgyblion hyn, gyda meini prawf mynediad ac ymadael clir ar gyfer ymyriadau sy'n canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn adolygu ac yn mireinio'i darpariaeth yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn cefnogi disgyblion ag ADY yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd addas tuag at weithredu Deddf Anghenion Dysgu ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae cynlluniau datblygu unigol yn nodi gwybodaeth allweddol am rwystrau rhag dysgu ac yn dechrau darparu arweiniad addas am sut gall athrawon gynorthwyo disgyblion mewn gwersi. Mae'r tîm ADY yn adnabod anghenion unigol ei ddisgyblion yn dda. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y defnydd o arferion yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n sicrhau bod disgyblion a rhieni'n cael eu cynnwys mewn datblygu eu cynlluniau datblygu unigol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o blatfform digidol i sicrhau bod staff yn gallu mynd at broffiliau un dudalen, er nad yw'r drefn o ran monitro pa mor dda y mae athrawon dosbarth yn defnyddio'r wybodaeth hon wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Ceir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hanghenion lles, iechyd meddwl ac emosiynol eu hunain. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y cwricwlwm 'Gwerthoedd', sy'n cael ei gyflwyno yn ystod cyfnodau cofrestru a gwasanaethau.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cadarn. Mae gan y tîm diogelu ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Maent yn ymateb i bryderon yn briodol ac yn gwneud atgyfeiriadau i asiantaethau allanol, pan fydd angen. Mae disgyblion yn gwybod i bwy y dylent roi gwybod am eu pryderon ac yn hyderus y bydd yr ysgol yn ymateb yn briodol. Mae staff bugeiliol yn delio'n gyflym ac yn gadarn ag achosion o ymddygiad negyddol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu trin yn deg a'u bod yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu.

## Arwain a gwella

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu ysgol ddiogel a chynhwysol. Caiff hyn ei gefnogi gan ddiwylliant cydweithio cadarnhaol ymhlith staff.

At ei gilydd, mae arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau buddiol mewn sawl agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at ddysgu a'u cyfraddau presenoldeb, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi

cael effaith ddigon cyson ar feysydd pwysig eraill, yn enwedig ar ansawdd yr addysgu, ac felly'r cynnydd a wna disgyblion yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae mwyafrif yr arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth addas o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu bras yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn dadansoddi data yn briodol ac yn gwneud addasiadau synhwyrol i'w darpariaeth. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio ystod o dystiolaeth hunanwerthuso i gynllunio ar gyfer gwelliant mewn agweddau penodol, a'i sicrhau. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso'u darpariaeth â thrylwyredd digonol. Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn rhoi barn rhy hael iddynt am eu darpariaeth ac yn cyfyngu ar eu gallu i sicrhau gwelliant.

Mae arweinwyr canol yn frwdfrydig ac ymrwymedig i wella deilliannau disgyblion. Maent yn sicrhau bod staff yn eu timau yn cael cyfleoedd defnyddiol i rannu arfer dda. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan eu rheolwyr llinell. Fodd bynnag, nid oes digon o gysondeb o ran pa mor gadarn y mae uwch arweinwyr yn eu dwyn i gyfrif. Mae dysgu proffesiynol ysgol gyfan yn cynnwys ffocws cryf ar gynorthwyo staff i ddatblygu eu Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw wedi canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau arwain arweinwyr canol ac uwch arweinwyr. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae amrywiad sylweddol o ran pa mor effeithiol y mae arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau buddiol i fynd i'r afael ag ychydig o flaenoriaethau cenedlaethol, fel lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn rhoi cymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn â pharatoi ar gyfer arholiadau a gwaith cartref. Mae'r strategaethau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael effaith ddigonol ar ddatblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg disgyblion, na chyrhaeddiad disgyblion o aelwydydd incwm isel.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr ymroddgar i'r ysgol. Maent yn gweithio i gryfhau cysylltiadau â meysydd pwnc er mwyn deall a chefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn well. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hysbysu'n ddigonol am rai agweddau pwysig ar waith yr ysgol, er enghraifft y cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu a'u medrau, sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddwyn arweinwyr i gyfrif. Yn ychwanegol, nid yw eu rôl mewn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach wedi'i datblygu'n ddigon da.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr wedi llwyddo i roi sylfaen ariannol gadarn i'r ysgol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro gwariant yn briodol i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Caiff cyllid grant fel y grant datblygu disgyblion ei dargedu'n briodol at ddiwallu anghenion disgyblion bregus. Fodd bynnag, ni chaiff effaith hyn ei gwerthuso'n ddigon trylwyr. Er mwyn cyflawni sefydlogrwydd ariannol, mae'r ysgol wedi ad-drefnu strwythur ei uwch dîm yn sylweddol yn ddiweddar. Er ei bod wedi ymdrechu i weddu'r rolau newydd hyn i flaenoriaethau gwella'r ysgol, nid yw cyfrifoldebau'n ddigon cytbwys, teg na chlir.

Mae'r CAA yn elwa ar arweinyddiaeth effeithiol. Mae staff yn canolbwyntio'n agos ar y cynnydd a wna disgyblion, ac yn addasu eu darpariaeth yn ystyriol i ddiwallu anghenion eu disgyblion yn dda.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco, lle bo’n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/12/2024